PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 382 | HYDREF 2015



Ioan y Giard t.7



Carafan Carwyn t.5

Campwaith o Stori Dditectif t.13



## Cyflwyno

Bydd tri beirniad newydd yn ymuno â thîm Fferm Ffactor: Brwydr y Ffermwyr eleni, wrth i'r gystadleuaeth amaeth boblogaidd ddychwelyd i S4C nos Fercher, 14 Hydref. Yn ogystal, bydd newid i fformat y rhaglen wrth i dimoedd, yn hytrach nag unigolion, gystadlu yn erbyn ei gilydd gyda'r nod o ennill teitl Fferm Ffactor: Brwydr y Ffermwyr a cherbyd Isuzu newydd sbon gwerth dros £20,000.

Y tri beirniad eleni yw – Richard Tudor sy'n ffermwr defaid o Abermagwr, Ceredigion; y darlithydd amaeth Wyn Morgan sy'n wreiddiol o Sir Gaerfyrddin, a'r arbenigwraig farchnata Caryl Gruffydd Roberts o Ben-bont Rhydybeddau. Mae Caryl yn ferch fferm o Ddyffryn Conwy – fferm Gosen ger Llanddoged a Llangernyw ond bellach yn byw yn Nhrefeurig. Mae Caryl yn cael blwyddyn



gyffrous mewn mwy nag un ffordd. Nid yn unig mai hi yw beirniad benywaidd cyntaf Fferm Ffactor, mae hi hefyd wedi priodi dros yr haf. Yn ei amser hamdden fe'i gwelir yn canu gyda 'Sgarmes'.

Yn ogystal, ar ddechrau'r flwyddyn, cychwynnodd yn ei swydd fel Pennaeth Marchnata ac Aelodaeth Undeb Amaethwyr Cymru. Cyn hynny, roedd y ferch fferm yn Swyddog Gweithredol Sirol i'r Undeb, yn cynghori ac yn rhoi cymorth i dros 800 o aelodau am brosesau, systemau a ffurflenni amaethyddol. Ar ben hynny, roedd hi'n helpu gyda gwaith papur amrywiol y fferm deuluol.

"Heb os, mae amaethyddiaeth a chefn gwlad wedi bod yn rhan annatod o'm magwraeth," meddai Caryl, "ac mae'n ddiwydiant sy'n rhoi bywoliaeth i mi hyd heddiw."



## Actio

Bydd Mark Roberts, Penrhyn-coch – neu Mark Stuart (enw llwyfan) – yn un o'r cymeriadau fydd yn ymddangos mewn cyfres ddrama newydd Dim ond y gwir ar S4C, o 4 Tachwedd ymlaen, sydd wedi ei seilio mewn llys barn ddychmygol yng ngogledd orllewin Cymru. Gweler t11



## Darlithio

Llongyfarchiadau i Manod Williams o Bow Street gafodd ei benodi fel Darlithydd Biofilfeddygaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Gweler t4

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Cysyllter a'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elinhefin@gmail.com

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Tachwedd Deunydd i law: Tachwedd 6 | Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 18**

**HYDREF 16** Nos Wener Cyfarfod agoriadol Cymdeithas Lenyddol y Garn: noson yng nghwmni Elvey MacDonald – yn Festri'r Garn am 7.30 o'r gloch

**HYDREF 16** Nos Wener Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felin-fach am 7.30 Mynediad £3

**HYDREF 17** Nos Sadwrn Octoberfest PATRASA noson Eidalaidd (gwisg ffansi) yn Neuadd y Penrhyn £10 yn cynnwys bwyd a rhif raffl lwcus. Adloniant gan y Trillbies am 7.30.

**HYDREF 21** Nos Fercher Eirionedd Baskerville Yma o hyd: sgwrs am y Wladfa ym Mhatagonia. Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30.

**HYDREF 23** a **24** Nosweithiau Gwener a Sadwrn Yr Ŵyl Ddrama – menter ar y cyd gan Theatr Gydweithredol Troed-y-rhiw a Theatr Felin-fach yn Theatr Felin-fach am 7.30

**HYDREF 24** Nos Sadwrn Cofiwch droi y clociau nôl!

**HYDREF 28** Dydd Mercher Clwb Hanner Tymor Horeb o 8.30yb – 5.00yp. Manylion gan Wendy Reynolds

**TACHWEDD 3** Nos Fawrth Arad Goch yn perfformio 'Hola!' yng Nghanolfan Arad Goch am 7.00. Mae'r ddrama yn addas i blant 7-11 oed a theuluoedd. Mae 'Hola!' yn dramateiddio stori anhygoel y Cymry anturus a ymfudodd i Batagonia ar y llong 'Mimosa' 150 mlynedd yn ôl. Ni fydd tâl mynediad ond dylid archebu tocynnau o flaen llaw drwy gysylltu ag Arad Goch ar 01970 617 998.

**TACHWEDD 13** Nos Wener Noson yng nghwmni René Griffiths yn Drwm, LLGC am 7.30 Mynediad trwy docyn: £6 01970 632 548

**TACHWEDD 18** Dydd Mercher Patagonia – dathlu a diolch – Eirionedd Baskerville yn Drwm, LLGC am 1.15 Mynediad am ddim trwy docyn 01970 632 548

**TACHWEDD 18** Nos Fercher Myfanwy Alexander yn trafod ei chyfrol A oes heddwas? Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch, am 7.30.

**TACHWEDD 19-20** Nosweithiau Iau a Gwener Theatr Genedlaethol Cymru mewn partneriaeth â Galeri, Caernarfon yn cyflwyno Dawns ysbrydion yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer
Dilynwch y Tincer ar Trydar @TincerY

**Camera'r Tincer**
Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn – £120
Hanner tudalen – £80
Chwarter tudalen – £50

neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn – £40 y flwyddyn (10 rhifyn – misol o Fedi i Fehefin; 6-9 mis £4 y rhifyn; llai na 6 mis (h.y. 1-5 mis) £6 y rhifyn. Cysyllter â'r Trysorydd)

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

ytincer@gmail.com

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Medi 2015**

**£25** (Rhif 235) Eurgain Rowlands, Hafod Heli, Y Borth
**£15** (Rhif 52) Hedydd Cunningham, Tyddyn Pen y Gaer, Llandre
**£10** (Rhif 260) Yr Athro Carter, Tyle Bach, Maes y Garn, Bow Street

**Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Medi 16**

### Swydd newydd

Llongyfarchiadau i'n teipydd, Iona Bailey. Ar ôl bron i 27 mlynedd o weithio i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, bydd yn symud i Gyngor Llyfrau Cymru yn ystod mis Tachwedd i'w swydd newydd fel Swyddog Grantiau. Dymuniadau gorau iddi.

### Papur Sain Ceredigion

Annwyl Ffrindie,
Ysgrifennwn atoch yn rhinwedd ein swyddi gwirfoddol gyda Phapur Sain Ceredigion *Talking Newspaper*. Rydym yn ymwybodol nad ydym ers tipyn o amser bellach yn darllen a dosbarthu'r Papurau Bro ar ffurf Papur Sain. Fel y gwyddoch mae Rhiain a Keith Lewis wedi gorffen rhoi o'u hamser i wneud y gwaith. Rydym yn dra diolchgar iddynt am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd. Yn anffodus nid oes neb wedi ymgymryd at y gwaith i'w dilyn hyd yn hyn.

Apêl sydd gennym. Tybed ymhlith aelodau eich pwyllgorau neu ddarllenwyr eich Papur Bro chi, a fyddai yna rai yn barod i roi awr neu ddwy yn fisol i ddarllen eich Papur chi ar ffurf Papur Sain? Fe roddwn hyfforddiant iddynt, benthyg yr offer, a gallem gynhyrchu a dosbarthu'r Papurau fel cynt.

Os oes unrhyw un â diddordeb ac am gael rhagor o wybodaeth cysylltwch naill ai ag Eurwen neu Margaret (manylion isod)

Os gwyddoch am unrhyw un a hoffai dderbyn ein gwasanaeth, ac a hoffai ddod yn wrandawr, gadewch i ni wybod hefyd os gwelwch yn dda.
Gyda llawer o ddiolch

Eurwen Booth (Cadeirydd) a
Margaret Sharp (Ysgrifennydd)
Rhoslwyn,
Y Buarth,
Aberystwyth
SY23 1LR
01970 612615

## 30 MLYNEDD YN OL



**CANMLWYDDIANT EGLWYS LLANFIHANGEL GENAU'R-GLYN:**
o'r chwith i'r dde: Mr Robin Gill; Y Parchg Maldwyn Griffiths; Mr Derrick Davies; Y Gwir Barchedig George Noakes; Mr Randall Enoch; Y Tad Alan White; Mrs Bidi Griffiths. Llun: Bill Evans. (O'r *Tincer* Hydref 1985)

### Cynhaeaf y Cledd

Perfformir cynhyrchiad newydd cwmni'r Morlan, Cynhaeaf y Cledd: Aberystwyth Tachwedd 1918, ar nosweithiau Sul a Llun 8-9 Tachwedd yn y Morlan, Aberystwyth. Mae cysylltiadau lleol i'r cynhyrchiad gan mai Gwyn Jenkins yw awdur y sgript a Geraint Evans yw'r cyfarwyddwr – y ddau o Dal-y-bont. Mae'r sgript yn seiliedig ar yr ymchwil a wnaed gan Gwyn ar gyfer ei gyfrol *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf* ond mae'n canolbwyntio'n benodol ar brofiadau rhai o drigolion Aberystwyth yn ystod cyfnod y Rhyfel Mawr.

Mae'r cyfan ar ffurf cyflwyniad dramatig wedi'i leoli yn Aberystwyth ar ddiwrnod olaf y rhyfel yn Nhachwedd 1918 gan geisio adlewyrchu safbwyntiau ac agweddau gwahanol y cyfnod. Yn ystod y cyflwyniad bydd dau gymeriad dychmygol yn cwrdd â nifer o gymeriadau go iawn a oedd yn byw yn y dre ar y pryd, gan gynnwys y bardd ac ysgolhaig T Gwynn Jones a ddaeth i fyw i Bow Street wedi hynny, a'r Parch R J Rees a oedd yn enedigol o Bow Street. Bydd hefyd elfen o gerddoriaeth yn dyddio o'r cyfnod.

### Cymdeithas Brodwaith Cymru

Annwyl Olygydd,
Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn o hyd at £300 i fyfyrwyr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstiliau mewn coleg. Bu nifer o fyfyrwyr yn llwyddiannus yn y gorffennol a phleser oedd cael arddangos peth o'u gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Disgwylir i ymgeiswyr fod yn 18 oed a throsodd.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg a threfnir darlithoedd, dosbarthiadau, ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn.

I gael ffurflen gais neu os am fwy o wybodaeth cysylltwch â mi. 15ed Ionawr 2016 yw'r dyddiad cau.
Gyda diolch,

Yn gywir,
Gwyneth Jones (Ysgrifennydd)
Feidiog,
12 Maes Tegid,
Y Bala,
Gwynedd
LL23 7BF

feidiog12@gmail.com

# BOW STREET

**Suliau**
**Capel y Garn**
**10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/**

**Hydref**
**18** Bugail
**25** Arwyn Pierce

**Tachwedd**
**1** Adrian P. Williams
**8** John Tudno Williams
**15** Bugail
**22** Goronwy Prys Owen
**29** I'w drefnu John Roberts

**Noddfa**
**Hydref**
**18** 10.00 Oedfa undebol yr ofalaeth ym Methel, Tal-y-bont (Oedfa ddiolchgarwch y plant)
**25** 10.00 Cyfeillach

**Tachwedd**
**1** 10.00 Uno y y Garn
**8** 2.00 Oedfa Sul y Cofio
**15** 10.00 Cyfeillach
**22** 2.00 Gweinidog Cymundeb
**29** 10.00 Oedfa

### Merched y Wawr

Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf ar y 14eg o Fedi yn Neuadd Rhydypennau. Croesawodd Shân Hayward, ein Llywydd, bawb yn gynnes iawn.gyda chroeso arbennig i Maria Owen a ddaeth i ymuno â ni. Roedd pawb wedi cael Rhaglen am y flwyddyn a rhoddodd Shân amlinelliad o'r hyn oedd i ddodd ac mae'n swnio'n ddifyr iawn. Aeth Shân drwy'r ohebiaeth a ddaeth o'r Ganolfan.

Ein gŵr gwadd oedd Elvey McDonald sydd yn adnabyddus i bawb fel brodor o Batagonia ond wedi cartrefu yng Nghymru. Cawsom sgwrs ddifyr iawn ganddo ar y modd y bu i'r ymfudwyr cyntaf symud i'r Wladfa yn y Mimosa o Lerpwl yn y flwyddyn 1865. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Marian Beech Hughes.

Enillwyd y raffl gan Ann Jones. Roedd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan aelodau o'r pwyllgor. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 12fed. Croeso i aelodau newydd.

Nos Wener, 18 Medi 2015, cynhaliwyd Swper Cynhaeaf y Garn yn ysgoldy Bethlehem, Llandre. Trefnwyd helfa drysor i'r plant gan Alan Wynne Jones, ac roedd y bwyd wedi'i baratoi gan yr aelodau, dan arweiniad Mrs Delyth Jones. Cafwyd amser braf yn cymdeithasu a sgwrsio, a chyflwynwyd yr elw tuag at gronfa'r ffoaduriaid, drwy law Aberaid (Aberystwyth). Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau.



Y Parchg Wyn Morris a'r Parchg Judith Morris yn Swper Cynhaeaf, Capel y Garn a gynhaliwyd ar Fedi'r 11 yn Addoldy Bethlehem, Llandre. Mrs Delyth Jones oedd wedi paratoi'r bwyd, gyda chefnogaeth aelodau'r Garn. Roedd Mr Alan Wynne Jones wedi trefnu helfa drysor i'r plant ymlaen llaw. Cyflwynwyd elw'r noson, sef £300 i gronfa'r ffoaduriaid, drwy Aberaid.

### Penodi darlithydd

Unwaith eto eleni, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cyllido rhagor o ddarlithwyr newydd i addysgu mewn gwahanol feysydd ar draws prifysgolion Cymru. Yn sgil y penodiadau, bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn datblygu ym Mhrifysgol Aberystwyth mewn meysydd fel Biofilfeddygaeth a Gwyddorau Amgylcheddol.

Un sy'n awyddus i ymgymryd â'r gwaith addysgu ac ymchwilio yw Manod Williams o Bow Street gafodd ei benodi fel Darlithydd Biofilfeddygaeth:

"Rwy'n edrych ymlaen at gynnig opsiwn i ddarpar fyfyrwyr astudio cyfres eang o fodiwlau amaethyddol a biofilfeddygol trwy'r Gymraeg a thrwy hynny sicrhau bod yr Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn tyfu i fod yn ganolfan ragoriaeth amaethyddol a biofilfeddygol cyfrwng Cymraeg."

### Capel y Garn – Bedydd

Yn ystod yr oedfa fore Sul, 20 Medi, bedyddiwyd Now Dafydd Schiavone, mab bach Lowri ac Owain, brawd Llew a Moi, ac ŵyr Delyth Jones, gan ein gweinidog, y Parchg Wyn Morris. Estynnwyd croeso cynnes i aelodau'r teulu estynedig, oedd wedi ymuno â ni ar gyfer yr achlysur. Hefyd, croesawyd Mr a Mrs Llew Evans, oedd yn dathlu eu priodas aur, i'r gwasanaeth, a phleser oedd cael cwmni aelodau eraill o'r teulu gyda ni yn yr oedfa. Llongyfarchiadau a dymuniadau da i'r ddau deulu.

'Cofio John': noson deyrnged i
**John Rowlands**

**NOS WENER TACHWEDD 27**

Cadeirydd:
Yr Athro Gruffydd Aled Williams.
Cymdeithas Lenyddol y Garn: noson yn Festri'r Garn am 7.30 o'r gloch



### Pen blwydd arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Jane Davies, 12 Maes Ceiro ar ddathlu ei phen blwydd yn 90 oed ar y 6ed o Hydref. Pob dymuniad da a phob bendith.





### Penodi yn Lyfrgellydd Aberteifi

Llongyfarchiadau i Rheinallt Lewis, Maes Ceiro, ar gael ei benodi'n llyfrgellydd cangen tref Aberteifi, a phob dymuniad da iddo yn y swydd newydd.

### Gwellhad buan

Dymuniadau am wellhad buan iawn i Maud Phillips, Tregerddan, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

### Newid aelwyd

Dymuniadau gorau i Ifor a Gwen Jones sydd wedi symud o Fryncastell i Is-y-foel, 13 Maes y Garn.

### Geni wyres

Llongyfarchiadau i Non & John Jenkins , Maes Afallen ar ddod yn fam-gu a tad-cu eto. Gawyd merch fach – Lena – i Hannah & Guto canol mis Medi.

### Chwiorydd y Garn

Cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch blynyddol brynhawn Mercher, Hydref 7fed yng Nghapel y Garn. Thema'r cyfarfod oedd dŵr, neu, ddiffyg dŵr, yn fwy penodol.

Llinos Dafis wnaeth y cyflwyniad – lluniau o rannau helaeth o'r byd – gan gynnwys Craig y Pistyll, Llyn Llygad Rheidol, y Ffwrnais, Cronfa Ddŵr Nant-y-moch yn ein hardal ni; ynghŷd â lluniau o'r Sahel – ardal sycha'r byd, heb sôn am blaned Mawrth, lle darganfuwyd posibilrwydd o ddŵr yn ddiweddar iawn. Cododd hefyd ambell i gwestiwn gogleisiol ... beth yw ein rhan ni yn y gorllewin yn y dinistr o ddifrodi coed a thirwedd naturiol rhannau o'r byd, yn ein trachwant am gyfoeth? Cyflwynwyd y cyfan gyda barddoniaeth a cherddoriaeth bwrpasol. Cymerwyd rhan gan Gwenda Edwards, Shân, Marian, y Parchg Wyn Morris, Bethan, Ann a Meinir Lowry, gydag Alan Wynne Jones yn cyfeilio. Gwnaed casgliad at 'Water Aid' yn ystod y cyfarfod a pharatowyd te yn y festri i ddilyn.

### Is-olygydd *Y Wawr*

Llongyfarchiadau i Marian Beech Hughes, Maes y Garn, ar gael ei phenodi yn is-olygydd *Y Wawr*, cylchgrawn Merched y Wawr.

### Ar y radio

Roedd yn braf clywed Emyr George, Llys Hedd gynt, ar y radio yn ddiweddar . Mae Emyr wedi ymuno â Cymwysterau Cymru yng Nghaerdydd fel Cyfarwyddwr Cyswllt o Ofqual, y swyddfa rheoleiddio cymwysterau ac arholiadau yn Lloegr, lle bu'n Gyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Gweithredu Rheoleiddiol. Sefydlwyd Cymwysterau Cymru drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 fel rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn raddau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n annibynnol ar y llywodraeth, ac yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Carafan Carwyn

Roedd yn ddifyr gweld y garafan anghyffredin hon a adeiladwyd gan Carwyn Lloyd Jones ar y rhaglen deledu Amazing Spaces ar Channel 4 yn ddiweddar. Cafodd y teulu wyliau dedwydd iawn ynddi.

Prynodd Carwyn y garafan ar ebay am £120 a gwariodd dim ond £720 i'w thrawsnewid yn garafan foethus.

Defnyddiodd tua 4,000 CD fel cladin – a gafodd o ganolfan ail-gylchu leol. A chafodd recordiau feinyl o siop recordiau lleol ar gyfer y llawr. Mae plastig y drws ffrynt wedi ei wneud o boteli plastig wedi eu hail-gylchu a'r ddwy sinc o hen silindrau copr. Gwelodd bympiau cwrw yn cael eu gwerthu arlein a chael un i'w ddefnyddio fel tap.



Agorwyd y Te Moethus ar y 15fed o Fedi i godi arian tuag at Ffrindiau Tregerddan yn y Cartref gan Hefin Jones, Aberystwyth.

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Pen-llwyn**
**Hydref**

| | | |
|---|---|---|
| 18 | 10.00 | Gordon MacDonald |
| 25 | 5.00 | Bugail |

**Tachwedd**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | 5.00 | Judith Morris |
| 8 | 10.00 | Bugail |
| 15 | 5.00 | Huw Roderick – Dyffryn |
| 22 | 10.00 | Terry Edwards |
| 29 | 2.00 | Rhidian Griffiths |



### Cylch Meithrin Pen-llwyn

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth ar ddydd Sadwrn, 19eg o Fedi yng Nghapel Siloam. Braf iawn oedd gweld dwy chwaer yn cystadlu, a hwythau yn mynychu Cylch Meithrin Pen-llwyn. Dyma lun o Lili Ann Macy a Ceri Macy. Cafodd Lili Ann ail am ganu ac ail am lefaru, a Ceri trydydd am ganu a thrydydd am lefaru. Llongyfarchiadau mawr ar eich llwyddiant.

### Swyddi Newydd

Dymunwn pob dymuniad da i Angharad Fflur Dafydd, Dolafon, yn ei swydd newydd yn ysbyty Guys/St Thomas Llundain, fel Arbenigwr Podiatristy Llongyfarchiadau Angharad, a phob lwc i'r dyfodol.

Hefyd yr un llongyfarchion i Angharad Edwards, 2 Stâd Pen-llwyn, yn ei swydd newydd yn Ysgol Gynradd Cynwyl Elfed. Bu yn yr ysgol hon yn gwneud profiad gwaith, ac erbyn hyn wedi cael swydd barhaol yn yr ysgol. Dymuniadau gorau iti Angharad.

### Diolch

Dymuna Mrs Maggie Jones, Haulfryn, ddatgan ei diolch am yr holl anrhegion, cardiau, blodau, galwadau ffôn ac ymweliadau a gafodd, ar ei phen blwydd yn 90 oed. Llawer o ddiolch, mae yn eu gwerthfawrogi yn fawr iawn.

### Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir yr uchod yng nghapel Pen-llwyn ar y 23ain o Hydref. Anerchir gan y Parchedig Carwyn Arthur, Tregaron. Croeso cynnes i bawb, byddem yn falch eich gweld.

### Gyrru

Yn ddiweddar, gwelwyd Rhydian Davies, Ceunant, yn gyrru car, rhaid mai yn ystod yr haf y cafodd ei brawf. Da iawn ti Rhydian. Bydd yn ofalus, a mwynha dy annibyniaeth!

### Cyfarfod Blynyddol y Tincer

Cynhaliwyd y Cyfarfod hwn eleni, yn Neuadd Pen-llwyn, gan i'r Pwyllgor benderfynu symud o le i le yn y dalgylch. Nid oes amgyffred gan y cyhoedd mae'n siwr fel ninnau, cymaint o waith mae y pwyllgor hwn yn ei wneud a hynny yn wirfoddol. Gan mai ym Mhen-llwyn yr oedd y pwyllgor eleni, aeth dwy ohonom yno, un o Ben-llwyn ac un o Gwmrheidol, er mwyn dangos diddordeb. Wel, yn wir i chi, os ydym ni y Gohebwyr a Dosbarthwyr yn aml, yn meddwl fod hyn yn fwrn, mae y gwaith tu ôl i'r llenni yn lawer lawer mwy. Pob un yn gyfrifol am ddyletswyddau gwahanol megis. – gwaith Ysgrifennydd, Trysorydd, Cadeirydd, is Gadeirydd, yna Cyfrifon y : Grantiau, Cyfeillion y Tincer, Dosbarthu, Gwerthiant, Tincer drwy'r post, Hysbysebion, Lluniau, Golygu,Teipio, Gosod, ac yn y blaen, heb anghofio fod rhaid rhoi y papur at ei gilydd pob mis.Cawsom ein dwy agoriad llygad.

Felly, pan dderbyniwch y Tincer hwn, rhowch funud fach i feddwl am y gwaith gwirfoddol sy'n gwneud yn bosib inni gael papur bro. Mae pob un sydd yn ymwneud â'r tasgau uchod i'w llongyfarch yn wir, ac yn haeddu pob diolch.

### Merched y Wawr Melindwr

Nos Fawrth Hydref 6ed aethom i Blas-crug i ymweld â adeilad Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Ar ôl i Delyth Davies estyn croeso i ni yr aelodau trosglwyddodd y noson i ofal Angharad Williams – un o'r rhai sydd yng ngofal y Casgliadau gwerthfawr o ffotograffiau a mapiau sydd yno. Cafwyd hanes eu gwaith a hefyd olwg ar lawer o adeiladau Aberystwyth sydd ddim yn bod mwyach. Cafwyd amser i bori drwy hen luniau a mapiau o ardal Pen-llwyn a oedd o ddiddordeb mawr i ni i gyd.Diolchodd Eirwen McNulty yn fawr i'r staff am noson ddiddorol. Aeth pawb ymlaen am baned a chymdeithasu yng Ngwesty Llety Parc.

### Te Prynhawn

Cynhaliwyd y "Te Prynhawn" yn Neuadd y Pentref, Pen-llwyn, ar y 7ed o Hydref, i ddathlu hanner can mlynedd y Pwyllgor Lles, a gefnogodd preswylwyr y pentref, mewn llawer modd am 50 o flynyddoedd.

Dechreuwyd yn 1965 gyda Te Prynhawn, ac adloniant i ddilyn.Penderfynwyd ei fod yn briodol i ddathlu yr achlysur yn yr un modd.

Cymerwyd rhan gan Mr a Mrs David a Kathy Cooper, Minafon,yn chwarae darnau clasurol ar y fiolyn.Wendy Reardon oedd y pianydd,a'r gantores ifanc Amy Miller.

Ymysg y gwahoddedigion, oedd Mr Mark Williams, Aelod Seneddol, a'r Cynghorydd Rhodri Davies, ac eraill dros saith deg oed.

Torrwyd y gacen gan Mrs Margaret Jones yr arlunydd, a arferai fyw yn Bronllys, ac yn aelod, y pryd hynny. Mrs Gladys Jones Abercwmdolau, a enillodd y raffl.

Cafwyd prynhawn pleserus iawn, dan arweinydd y gweithrediadau, Mrs Barbera Hogger, Maes Melindwr, ysgrifennydd presennol y Pwyllgor Lles. Diolchodd i bawb oedd wedi cymryd rhan, yn arbennig am addurno y byrddau coginio, paratoi a gweini y bwyd ardderchog. Maent yn wir yn haeddu pob clod. Mrs Pat Griffiths yw y Llywydd presennol.

Rheswm arall i ddathlu yw pen blwydd "Mudiad y Merched" ei hun, yn gan mlwydd oed eleni.

### Dyddiadau i'r dyddiadur

Rhagfyr 4 Nos Wener
Noson Goffi a Raffl Fawr
Adloniant gan Bois y Gilfach
Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7
Rhagfyr 20 Nos Sul
Gwasanaeth Carolau
Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 6
Rhagfyr 24 Noswyl Nadolig
Cymun Bendigaid
Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 11.30



Y Parchedigion Lyn Dafis a Heather Evans yn dathlu Gŵyl Ffransis o Assisi yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor dydd Sul Hydref 4 gyda chreaduriaid bach a mawr yn cofio nawddsant yr anifeiliaid a dathlu gras a daioni Duw yn ein creu, yn ein cadw ac yn ein cynnal.

# LLANDRE

### Profedigaethau

Dros yr Haf collodd Gwenda James, Tremedd, ewythr a modryb yn Sir Fôn ac yn ystod y mis bu i Eric golli ei frawd oedd yn byw yn Rhuddlan. Diolch am bob arwydd o gydymdeimlad.

### Newid aelwyd

Pob lwc i Llŷr a Meleri, Idesia, Lôn Glanfred yn eu cartref newydd yn Bethania a croeso i Bob a Mary sydd wedi symud mewn i Idesia.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Eddie Jenkins, Eryl, Llandre ar golli ei frawd Dai Jenkins, Maenllwyd, Penrhiw yn ddiweddar hefyd ar golli ei chwaer yng nghyfraith Sarah Jenkins a oedd yn Plas y Cwm, Clarach.

Cydymdeimlwn hefyd yn fawr iawn â Gwenno Watkin, 19 Maeshenllan, ar golli ei chwaer Haf Williams (née Thomas), Harlech ar Fedi 30.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gina ac Andrew Griffiths, Gwenlli, ar enedigaeth merch fach – Charlotte Molly – chwaer fach i Olivia yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Leri a Ian, Maeshenllan, ar enedigaeth merch fach – Isla – yn ddiweddar.

### Rhannu Cyfaredd Y Llwybr Llên

Er mwyn hyrwyddo'r ymwybyddiaeth am Lwybr Llên Llanfihangel Genau'r-glyn cynhyrchwyd taflen newydd a fydd yn cael ei chylchredeg yn y dalgylch drwy gyfrwng y papurau bro a chanolfannau cymdeithasol a thwristiaeth. Derbyniwyd cefnogaeth ariannol gan Gronfa Eleri er mwyn gwireddu hyn.

Comisiynwyd ffotograffiaeth newydd gan Iestyn Hughes a Dr Phil Jones ac fe gynhyrchwyd pedwar o gardiau gyfarch. Bydd llawer o ymwelwyr â'r llwybr yn holi yn gyson ar ddiwedd taith ar y llwybr am rywbeth i'w brynu i gofio'r ymweliad. Mae'r cardiau ar werth yn eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn.



# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL



Ioan y Giard

### Gwireddu breuddwyd

Mae Ioan Lord, Gelli-fach, wedi gwireddu ei freuddwyd. Mae wedi pasio fel giard ar drên lein fach Cwmrheidol. Cymerodd ei drên cyntaf allan diwrnod ar ôl ei ben blwydd yn 17oed ym mis Awst.

Llongyfarchiadau mawr. Dyma lun o Ioan yn ei wisg swyddogol.

### Capel Llwyn-y-groes

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch ar y noson olaf o fis Medi o dan arweiniad y Parchg Eifion Roberts, Y Morfa. Daeth cynulleidfa dda ynghyd o ardaloedd cyfagos ac mi 'roedd y Capel wedi ei lanhau a'i addurno yn hyfryd iawn gan Gwen Morgan, Ann Ellis, Dot Kirton a Mercia Railson. Diolch i Delyth Davies, Pen-llwyn am ganu yr organ ac i bawb am eu cefnogaeth.

### Urdd y Benywod

Prynhwn Sadwrn braf ym mis Medi aeth aelodau Urdd y Benywod ynghyd â'u gwŷr a›u cŵn am dro i Blas yr Hafod, Cwmystwyth. Mae John Marshall yn gwneud gwaith gwirfoddol yn cynnal a chadw y tir ac mi aeth a ni am dro o amgylch yr ystad. Cafwyd cwpanaid o de yng Ngwesty yr Hafod, Pontarfynach i orffen prynhawn dymunol iawn.

Nos Lun y 5ed o Hydref ein gwestai oedd Ioan Lord, Gelli-fach. Mae Ioan yn ymddiddori yn fawr yn hanes y gwaith mwyn a chafwyd orig ddiddorol iawn yn ei gwmni. Drwy help Powerpoint aeth a ni o amgylch holl siaftiau yr ardal ac mi 'roedd ambell i olygfa yn dod a ffordd o fyw y mwynwyr cynnar yn fyw iawn i ni. Diolchodd Lorraine Maloney yn gynnes iddo am noson ddiddorol iawn.



Llun: Nia Gore

Cwmrheidol ar ddiwrnod braf o hydref

Y GYMUNED YN COFIO
**DAVID ENGLAND**
Cyfle i gefnogi
Ambiwlans Awyr Cymru
**BETHLEHEM, LLANDRE**
Eitemau gan aelodau Côr Ger-y-lli
Nos Wener Tachwedd 20fed 7.30

# Y BORTH



Rhai aelodau o Gymdeithas Henoed y Borth ger Cofeb Wynford Vaughan Thomas

### Cymdeithas Henoed y Borth

Dydd Iau 17 Hydref cynhaliwyd taith hydref y Gymdeithas ac ni allem fod wedi cael tywydd gwell. Aeth ein gyrrwr Gwyndaf o Gwmni Teithio R J Jones a ni drwy'r mynyddoedd i Langurig ac ymlaen i Lanidloes. Roeddym yn meddwl fod y golygfeydd ar y daith yna yn wych ond ar ôl aros am ginio a chrwydro yn Llanidloes fe deithion ni nôl heibio Llyn Clywedog a chofeb Wynford Vaughan Thomas a'r olygfan. Roedd mor glir a golygfeydd anhygoel i'w cael oddi yna. Dyma ddiwrnod gofiwn am amser hir.

### Ysgol Sul St. Matthew

Codwyd cyfanswm o £1,307.50 i Ymchwil Canser UK yn y Ras am Fywyd eleni gan rieni a phlant ysgol Sul y Borth. Mae hyn yn swm arbennig a hoffem ddiolch i bobl y Borth am eu haelioni i'r plant. Fe gododd pawb symiau mawr ond llongyfarchiadau arbennig i Erin a Lili.


**D J Evans**
**Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
47 Heol Maengwyn Machynlleth SY20 8EB
Swyddfa'r Ysgubor, Alexandra Rd. Aberystwyth SY23 1LN

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**



Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?
Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys; cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:

Dysgu Bro CEREDIGION Community Learning

**01970 633540**
**admin@dysgubro.org.uk**
**www.dysgubro.org.uk**


# Côr Meibion o dan arweinydd newydd

Bydd Côr Meibion Aberystwyth yn canu am y tro cyntaf o dan faton ei arweinydd newydd, Alwyn Evans, mewn cyngerdd **nos Wener, 6ed Tachwedd 2015** (7.30 p.m.) yng Nghanolfan y Morlan, er budd yr elusen newydd lleol, Hosbis yn y Cartref. Mae Alwyn yn dod o Fachynlleth, yn unawdydd o fri ac yn arweinydd hefyd ar Gôr Meibion Dyfi. Mae'n olynu Carol Davies, yn wreiddiol o Bont-rhyd-y-groes, sydd wedi ymddeol ar ôl dros ddeng mlynedd fel arweinydd y côr. Cyfeilydd y côr yw Elenid Thomas, o Benrhyn-coch.

Bydd y Côr Meibion yn rhannu llwyfan ar y noson gyda chôr 'Synergy' o'r Fenni, côr sy'n canu harmoni clòs, digyfeiliant,. Synergy a ddyfarnwyd y côr meibion bach gorau (dan 40 llais) yng Ngŵyl Ryngwladol Cernyw yn 2011 a 2013. Maent wedi canu mewn nifer o brif wyliau Cymru gan gynnwys Eisteddfod Llangollen a'r 'Proms' Cymreig yng Nghaerdydd. Bydd eu rhaglen yn cynnwys eitemau gan eu hunawdydd Jeni Lewis.

Ac i ychwanegu at amrywiaeth y rhaglen, fe fydd Côr Plant Ysgol Padarn Sant, Aberystwyth, yn canu o dan arweinyddiaeth y prifathro, Peter Leggett.

Trefnir y noson gan Megan Jones ar ran 'Hosbis yn y Cartref', ac fe fydd tocynnau ar gael am £5 o siop yr Hosbis yn Heol y Wig. Llywydd y noson fydd yr Athro Wynne Jones, sy'n adnabyddus fel un o feirniaid 'Fferm Ffactor' (S4C), ac mae'r Hosbis yn ddyledus i gwmni Contractwyr Adeiladu Lagan am ei nawdd hael tuag at y gyngerdd.


Cysyllter â'r trysorydd
os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**


## Map Dŵr Cymerau: Cynulliad yr Hydref

Ymunwch â ni i ddarganfod beth sy wedi digwydd yn ystod tymor cyntaf blwyddyn o archwilio dŵr yn Y Borth a Thal-y-bont.

### Nos Iau 19 Tachwedd
### Neuadd Goffa Tal-y-bont

**Rhan 1**: 6yh – Sgrinio ffilm fer wedi'i chreu gan ddisgyblion Ysgolion Tal-y-bont a Chraig yr Wylfa

**Rhan 2**: Cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd a fydd yn helpu'r plant i ddatblygu'r gwaith

Egwyl a raffl tua 7yh – elw tuag at RNLI a Wateraid

**Rhan 3**: Cyfres o gyflwyniadau byrion gan artistiaid sy'n gweithio gyda chymunedau'r Borth a Thal-y-bont, a chipolwg ar waith i ddod yn ystod 2016

I gael rhagor o wybodaeth ewch at www.cymerau.org neu ffoniwch ecodyfi: 01654 703965

Croeso i bawb

BATH SPA UNIVERSITY · Arts & Humanities Research Council · BANGOR UNIVERSITY · ecodyfi · Cymerau

## DOLAU

### Cofion

Anfonwn ein cofion at Mr John Rees, Talardeg, sydd yng Nghartref Cwmcynfelyn ar hyn o bryd.

### O'r Ysbyty

Rydym yn falch i glywed bod Yr Arglwydd Elystan Morgan gartre ar ôl cyfnod yn Ysbyty Bron-glais.

Annwyl Olygydd
Hoffwn wahodd darllenwyr *Y Tincer* i Ddarlith Edward Lhuyd 2015. Yr Athro Mari Lloyd-Williams, Prifysgol Lerpwl, fydd yn traddodi darlith eleni ar y testun **'Heneiddio a gofal – ein cyfrifoldeb a'n braint'**.

Mae'r Athro Mari Lloyd-Williams yn feddyg ac yn ysgolhaig amlwg ym maes gofal lliniarol. Bydd ei darlith yn trafod sut y mae newidiadau cymdeithasol a datblygiadau meddygol wedi trawsnewid ffyrdd o ofalu am bobl mewn oed, gan ystyried sut mae gofalu am bobl oedrannus yn ein cymunedau wrth i fwy a mwy o bobl fynd i oed. Ydym ni wedi mynd yn gymunedau diofal?

Cynhelir y ddarlith nos Fercher, 4 Tachwedd am 5:30yh yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Yr Athro Noel Lloyd, Aberystwyth, fydd yn cadeirio'r noson. Trefnir y ddarlith ar y cyd rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chymdeithas Ddysgedig Cymru.

Mae mynediad am ddim ond nifer cyfyngedig o seddi sydd ar gael, felly os hoffech gadw lle, cysylltwch â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar 01267 610400 neu rh.williams@colegcymraeg.ac.uk.

Yn gywir iawn
Mari Fflur
Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**y tincer**

COFIWCH GYSYLLTU

ytincer@gmail.com

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau Medi 24 yn Neuadd Rhydypennau o dan gadeiryddiaeth y Cyng. Sian Jones. Trafodwyd y cais am godi Twrbin Gwynt ar dir Ruel Uchaf ar y gorwel gyferbyn â phentref Bow Street. Gan fod y Cyngor yn ymwybodol am gonsyrn y trethdalwyr yn ardal Tirymynach penderfynwyd ysgrifennu at yr Adran Gynllunio yn mynegi ein cefnogaeth iddynt. Hefyd yn mynegi ein hanfodlonrwydd am yr anghysonderau sydd yn ymddangos yn y cais cynllunio. Er nad ydyw y tir yng nghymuned Tirymynach y mae'n weledol i fwyafrif ein trethdalwyr.

Mae cwynion am doiledau'r Neuadd yn dal i ddod i law, ac mae'r gordyfiant o gwmpas y llwybr erbyn hyn hefyd yn rhwystr. Gobeithir cael cyfarfod yn fuan gyda phwyllgor y Neuadd.

Yn ei adroddiad dywedodd y Cynghorydd Paul Hinge fod gwaith yn mynd yn ei flaen parthed y gorlifo yng Nghlarach / Llangorwen a ger y fynedfa i Ffynnon Ddu a Phen-y-bont. Deallir bod criw teledu yn bwriadu dod i ben lôn Dolau i geisio cryfhau yr ymdrech i gael llwybr yn arwain at Rydypennau. Mae'n debyg bod Edwina Hart yn dal i lusgo traed eto. Disgwylir i denantiaid symud i mewn i dai Foel Goch (estyniad Cae'r Odyn) ddechrau Ionawr nesaf. Bu cwyno am gyflwr nifer o seddau o gwmpas y pentref ond da yw dweud bod pedair newydd ar y ffordd. Mae'r cerbyd wrth fynedfa rhes flaen Tregerddan yn parhau i achosi rhwystr i fodurwyr.

Mae angen trwsio (weldio) y llidiart wrth fwlch cae chwarae Tregerddan, hefyd mae angen sylw ar fynedfa i gae chwarae Bryncastell, o bosibl y daw fel rhan o'r cynllun diogelu llwybr dros y bont.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 29 Hydref.

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Mae tranc ffoaduriaid o Syria a gwledydd eraill wedi bod yn amlwg yn y newyddion. Mae'n destun balchder i mi fod pobl Ceredigion eisoes yn trefnu casgliadau ac yn codi ymwybyddiaeth trwy ddigwyddiadau. Cefais gyfle i annerch cyfarfod y grŵp newydd 'AberAid' ar brom Aberystwyth, gan hefyd drosglwyddo'r neges yn ôl i Lywodraeth Cymru fod angen cynllunio i gynnig cymorth dyngarol. Daeth mater y ffoaduriaid yn bwnc trafod hefyd mewn cyfarfod o Sefydliad y Merched y bum yn ei annerch ym Mydroilyn. 'Merched mewn gwleidyddiaeth' oedd testun cychwynnol y sgwrs, ond fe aeth hi'n drafodaeth fywiog o sawl pwnc – o Syria i'r Alban a thu hwnt!

Rwy' hefyd wedi bod yn llafar wrth gefnogi'r syniad o'r Eisteddfod Genedlaethol yn dychwelyd i Geredigion yn 2020. Mae hi wedi bod llawer yn rhy hir ers y dair brifwyl lwyddiannus yn 1976 (Aberteifi), 1984 (Llambed) ac 1992 (Aberystwyth) a gobeithio y medrir cynnig gwahoddiad y tro hwn. Mae diwylliant eisteddfodol Ceredigion yn gryf. Gwelais hynny yn glir iawn wrth fynychu eisteddfod Cwmystwyth – y cyntaf a gynhaliwyd yn y fro ers blynyddoedd lawer, a theyrnged gwych i waith Merêd.

Yn y Cynulliad, mae dipyn o ffocws ar hyn o bryd ar faterion iechyd – pwnc yr wyf yn llefarydd drosti. Rwy' eisoes wedi cyhoeddi nifer o syniadau ar gyfer gwelliannau sydd mor angenrheidiol i'n gwasanaeth iechyd; recriwtio mwy o feddygon a staff, sicrhau diagnosis gyflymach, ac integreiddio llawn rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Rwy'n edrych mlaen i drafod rhain yng Nghynhadledd Plaid Cymru a fydd eleni yn dychwelyd i Aberystwyth. Ac eleni mae gennym ymwelydd nodedig iawn sef Nicola Sturgeon, Prif Weinidog yr Alban. Bydd yn fraint ac yn bleser ei chroesawu i Geredigion.

# PENRHYN-COCH

**Gwasanaethau Horeb**
**Hydref**
**18** 10.30 Ysgol Sul 10.00 a 6.00 Y Parchg Irfon Roberts – Cyrddau Pregethu Bethel Aberystwyth
**25** 10.30 Ysgol Sul 10.30 Kieran Owen

**Tachwedd**
**1** 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
**8** 9.30 Y Parchg Judith Morris Oedfa deuluol
**Sylwer ar yr amser. Cynhelir Gwasanaeth Sul y Cofio wrth y gofeb am 10.45yb**
**15** 10.30 Ysgol Sul 2.30 Kieran Owen
**22** 10.30 Ysgol Sul 10.30 Y Parchg John Roberts
**29** 10.30 Gwilym Tudur

## I'r Coleg

Dymuniadau gorau i Gwenno Morris, Preseli, ar ei chwrs addysg gynradd ym Mhrifysgol Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin.

## Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn

Anfonaf angel, Benedictus, Gwin Beaujolais – caneuon cyfarwydd i ni i gyd – a'r cyfan yn waith un dyn – Robat Arwyn – 'cyfansoddwr mwyaf poblogaidd Cymru' yn ôl ei CD. Pa syndod felly i Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch fod dan ei sang pan ddaeth y cyfansoddwr a'r llyfrgellydd o Rhuthun i gynnal noson. Bu'n siarad am gefndir rhai o'r caneuon gan eu canu neu chwarae fersiwn offerynnol ohonynt yn amrywio i rai o'i sioeau cerdd "Plas Du" ac "Er mwy yfory" i ganeuon a gyfansoddodd i blant. Ac yn wahanol i'w nosweithiau arferol cafwyd tri chôr lleol i ganu rhai o'i weithiau. Canodd côr Ysgol Penrhyn-coch 'Bai ar gam' dan arweiniad y Pennaeth, Emyr Pugh-Evans, cyfaddefodd Arwyn mai dyma y tro cyntaf iddo ei chlywed yn cael ei chanu – ac roedd wedi ei blesio yn fawr.

Roedd Côr Ger-y-lli (arweinydd: Greg Vearey-Roberts) oedd yn dathlu ei ben blwydd yn 11 oed ar y diwrnod – wedi comisynu darn ganddo i eiriau Eurig Salisbury 'Ger-y-lli'. Canwyd y gwaith gyntaf yng nghyngerdd 10 oed y côr a dyma y trydydd tro iddynt ei berfformio. Roedd y cyfansoddwr i'w weld wedi ei gyffwrdd yn fawr gan y perfformiad a chlywed ei waith eto am y tro cyntaf. Eglurodd fel y bu sawl fersiwn yn y crochan cyn penderfynu ar yr un derfynol. (Llongyfarchiadau i Eurig a Rhiannon ar enedigaeth Tomas Llew ganol Medi.) Canodd Côr Eisteddfod Penrhyn-coch (arweinydd: Angharad Fychan) Byw fyddi Nant Gwrtheyrn i gloi y noson.

Crewyd awyrgylch braf, hamddenol a Robat Arwyn yn cyflwyno'i ganeuon yn ddifyr tu hwnt. Braf iawn gweld cynifer o bob oed mewn noson Gymraeg ym Mhenrhyn-coch.

Gwerthwyd CD o'i eiddo – ond nid oedd ganddo ddigon o gopïau gan fod cymaint galw amdanynt – maent ar gael trwy siopau neu ar wefan Sain am £9.99

Cadeiriwyd gan Gadeirydd 2015/6 y Gymdeithas Jackie Willmington a'r cyfeilyddion oedd Heddwen Pugh-Evans, Menna Griffiths a Llio Adams. Cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned ar y diwedd diolch i Wendy Reynolds a Glenys Howells.





Noson Robat Arwyn



**Bore coffi Eglwys St Ioan**

Mae'r nifer sy'n mynychu y bore coffi yn cynyddu. Roedd 40 yn bresennol pan dynnwyd y llun.

## Cyhoeddi cyfrol arall

Ddechrau Medi cyhoeddwyd pedwaredd cyfrol y bardd o Benrhyn-coch Nigel Humphreys *The love song of Daphne and Chloe* yng Nghanolfan y Celfyddydau gan Wasg Circaidy Gregory. Ar wahân i gerdd y teitl mae'r gyfrol yn cynnwys pum cyfieithiad newydd o gerddi Dafydd ap Gwilym yn cynnwys Merched Llanbadarn a Trafferth mewn Tafarn lle mae'r bardd wedi ceisio creu ffurf y cywydd yn Saesneg mewn ymgais i ailfyw lliw a hiwmor y bardd o'r 13eg ganrif. Mae y gyfrol ar gael yn y siopau am £7.99 – am fanylion pellach gweler www.nigelhumphreyspoet.com/daphnisandchloe.htm

## Cerddorol

Llongyfarchiadau i Gronw Fychan Downes, Glanrafon, ar basio'i arholiad gradd 4 trombôn efo anrhydedd yn ystod yr haf.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Ceri a Dylan Jones, Dôl Helyg, ar enedigaeth mab – Gruffydd Ifor – brawd i Osian Gwern.

## Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch – Bingo

Braf oedd gweld cynifer yn cefnogi sesiwn cymdeithasol Bingo cyntaf y tymor ar nos Wener 16 Medi 7yh, cofiwch nodi'r dyddiadau canlynol yn eich dyddiaduron os am ymuno â ni am noson hwyliog:
7y.h. Nos Wener 16 Hydref; 7y.h. Nos Wener 20 Tachwedd, 7y.h. Nos Wener 11 Rhagfyr.
Mi fydd gwobrau mis Rhagfyr yn gysylltiedig â'r Nadolig megis ennill cacennau Nadolig, plwm pwdin ac yn y blaen. Dewch â ffrind a dewch yn llu.





### Ocsiwn Dawel

Cynhaliwyd Ocsiwn Dawel ar brynhawn heulog Sadwrn 26 Medi yn Neuadd yr Eglwys. Er mai siomedig oedd y nifer a fynychodd, hael iawn oedd y plwyfolion a gyflwynodd eitemau diddorol i'w gwerthu. Agorwyd y digwyddiad yn swyddogol gan ein cynghorydd lleol, Mr David Mason – yn y llun gwelir ef yn annerch a chanu'r gloch cyn i'r cynigion gychwyn. Diolch yn fawr i aelodau'r is-bwyllgor codi arian am eu gwaith caled a'u hamser i hyrwyddo'r digwyddiad.

### Cwrdd Diolchgarwch

Ar nos Fercher 30 Medi yng nghwmni'r Parchedigion Andrew Loat, Heather Evans a Lyn Dafis, a'r pregethwr gwadd – y Parchg Gareth Reid o eglwys Sant Tysul, Llandysul. Rhoddwyd casgliad ariannol y gwasanaeth tuag at waith U.S.P.G.

Anrhegwyd nwyddau bwyd gan y plwyfolion at achos da Stordy'r Jiwbilî, sy'n darparu bwyd i bobl leol mewn argyfwng. Fel plwyf, yr ydym wedi bod yn cefnogi'r elusen arbennig hon drwy gydol y flwyddyn, medrwch adael deunydd bwyd ar y bwrdd wrth ddrws yr eglwys, yn ystod ein gwasanaethau wythnosol.

### Neuadd y Penrhyn 2015

Penderfynwyd codi Neuadd newydd a daeth criw o bobl at ei gilydd. Ac mae blynyddoedd lawer wedi mynd heibio ar pan fu y criw bach hynny yn gweithio. Fe ddaeth yna wirfoddolwyr lu o'r pentre i godi 'Neuadd y Penrhyn' ynghyd a'i ffrindiau. Mae'r pwyllgor bob amser wedi gwneud ei gwaith ac wedi bod yn ffyddlon i'r neuadd am flynyddoedd maith. Fe gymerodd y neuadd ei le yn y pentre, heb os. Ac fe welir ei defnyddio yn gyson dydd a nos. Mae yna restr fawr o rhai enwog fu yn ein diddori, maent yn rhy niferus i bob un cael ei henwi. Cynhaliwyd pob math o weithgareddau yn y neuadd dros y blynyddoedd. Er i'r neuadd golli peth o'i harddwch ar hyd y blynyddoedd mae bellach wedi ei "gwedd newid" ac eto yn croesawu y cyhoedd. Diolch i'r pwyllgor sydd yn dal i lafurio, a diolch i chi bawb am ei ddefnyddio. Daliwch i gefnogi eich neuadd bentre. Mae'n werth cymdeithasol a chadw cred yn y pethe.

**M.J.**

### Merched y Wawr

Nos Iau, 10fed o Fedi ar noson agoriadol y tymor newydd fe gafwyd noson o gaws a gwin yng nghwmni ein gilydd fel cangen.

Croesawodd Glenys Morgan bawb i'r cyfarfod.

Fe wnaeth longyfarch pawb a fu yn llwyddiannus yn y gwahanol sioeau oedd wedi cymryd lle dros yr haf ac yn cynnwys y rhai a fu yn llwyddiannus yn y sioe yn Llanelwedd.

Fe ddymunodd yn dda i Mair Evans, Mair Jenkins ac Elsie Morgan ar ben blwyddi arbennig oeddynt wedi eu dathlu yn ddiweddar. Dymunodd yn dda i Sue Hughes a'i gŵr oedd yn mynd ar wyliau arbennig y Sul canlynol. Yna fe aed ymlaen i drafod y busnes arferol o fynd drwy'r gohebiaeth oedd wedi dod i law. Fe soniwyd am wahanol bwyllgorau Merched y Wawr ac annog aelodau i'w mynychu. Soniwyd hefyd fod Eglwys Sant Ioan yn cael arddangosfa coed Nadolig eleni eto ym mis Rhagfyr ac am i'r gangen cymryd rhan. Y thema y tro hwn yw "Ail Gylchu". Diolchodd i Wendy Reynolds am wneud y rhaglenni fel arfer ac fe dalodd pawb eu tâl aelodaeth am y tymor. Roedd y noson yng ngofal Glenys Morgan a Delyth Jones, a Wendy Reynolds a Janis Morris yng ngofal y caws a'r gwin.

### Newid Aelwyd

Ffarweliwyd a Pam a Phil Small, Cae Mawr yr wythnos ddiwethaf – dymuniadau gorau iddynt.

Croeso i Ceris a Jamie Medhurst, Henry a Lucie sydd wedi symud yma o Aberangell.

### Dim ond y gwir

Bydd Mark Roberts, Cae Mawr, yn un o'r cymeriadau fydd yn ymddangos mewn cyfres ddrama newydd ar S4C, o 4 Tachwedd ymlaen, sydd wedi ei seilio mewn llys barn ddychmygol yng ngogledd orllewin Cymru.

Ffilmiwyd Dim ond y Gwir – cyfres ddrama 12 pennod – yng Nghaernarfon gan gwmni cynhyrchu llwyddianus Rondo Media; ac mae set bwrpasol newydd wedi ei hadeiladu ym Mharc Menai ac yn stiwdio Rondo ar stad ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon. Mae'r ddrama wedi ei ffilmio ar draws y dref, a doc Caernarfon, a bydd golygfeydd o'r dref a'r Fenai i'w gweld yn ystod y gyfres.

Actorion eraill yn y gyfres fydd Rebecca Trehearn, Geraint Morgan, Siôn Pritchard ac Ioan Hefin. Fe fydd chwe achos i gyd yn y gyfres gyda dwy raglen wedi'u neilltuo i bob achos. Bydd yr achosion yn cynnwys llofruddiaeth, trais, llosgi bwriadol, puteindra, lladrata ac ewthanasia.



Hedd Bleddyn (chwith) oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Medi o'r Cylch Cinio yng Ngwesty'r Richmond. Hwn oedd cyfarfod cyntaf John Lewis (dde) yn ei swydd fel y Cadeirydd newydd. Yn y canol mae Dicky Wyn, trysorydd ac enillydd y gystadleuaeth am y limrig orau.

## MADOG

**Suliau**
**Madog 2.00**

**Hydref**
18 Bugail
25 Arwyn Pierce

**Tachwedd**
1 Bugail
8 John Tudno Williams
15 Bugail
22 Goronwy Prys Owen
29

### Gwellhad buan

Cafodd Eirian Hughes, Lluest Fach, Capel Madog, lawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar a dymunwn wellhad llwyr a buan iddi.

### Pêl-Droed Penrhyn-coch

12/09/15
Penrhyn-coch 5-1 Llanidloes
Cwpan Cymru

19/09/15
Penrhyn-coch 2-1 Aberriw
Tlws CBC

26/09/15
Penrhyn-coch 2-0 Llandridod

Cynghrair 30/09/15
Airbus 2-0 Penrhyn-coch WORD CUP
03/10/15
Cwpan Cymru

12/09/15
Tal-y-bont 4-3 Eilyddion Penrhyn-coch
Cynghrair

26/09/15
Tal-y-bont 2-2 (4-5 PENS)
Eilyddion Penrhyn-coch Dai Dynamo

03/10/15 NORTHCOTE 1-2(AET)
Eilyddion Penrhyn-coch
Emrys Morgan
Aberhonddu

Menywod
26/09 Penrhyn-coch 1 – Llambed 3

# GOGINAN

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda Huw, Jane, Steven a Sioned Jones, Yr Hafan ar farwolaeth brawd Huw – sef Elwyn Bennet Jones yn Llanbrynmair ar Fedi 13.

### Codi Canu

Braf oedd gweld Rhys Bebb, Blaendyffryn gynt, ar y rhaglen Codi Canu yn ddiweddar. Fe fu yn ddigon lwcus i fod yn un o'r rhai a ddewiswyd i fod yn aelod o'r côr oedd yn canu yr anthemau cyn gêm Cymru a Fiji, ac yn ei eiriau ef dywedodd "Roeddwn yn gwybod nad oeddwn yn ddigon da i gael y cyfle i chwarae ar y maes yma ond roedd cael y cyfle i ganu mewn gêm ryngwladol yn ail ddewis balch."

### Capel Y Dyffryn

Ar nos Wener braf yr ail o Hydref daeth nifer dda i'r capel i gynnal Gŵyl Diolch am y cynhaeaf. Croesawyd rhai o wahanol Eglwysi y cylch i ymuno yn y diolch, a braf oedd cael eu cwmni.


Ein cennad eleni oedd y Parchedig J.E. Wynne Davies, Aberystwyth ac mor braf oedd ei groesawu i'r Dyffryn ar ôl cyfnod hir o waeledd ond diolch ei fod wedi cael gwellhad rhyfeddol, ac yn pregethu mor rymus ac erioed. Gweddïwn y caiff nerth ac iechyd i wasanaethu am lawer blwyddyn eto.

Roedd testun ei bregeth o Lyfr y Proffwyd Hagai – Duw yn siarad wrth y bobl drwy y Proffwyd ac yn pwysleisio "Ystyriwch eich cyflwr" Yr un yw Ei neges i bobl heddiw.

Diolch i Eirlys Davies, Brynmeillion, am addurno y Capel mor hardd, roedd yn wledd i'r llygad.


inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

ytincer@gmail.com



# Campwaith o Stori Dditectif Ysgolheigaidd

Gruffydd Aled Williams *Dyddiau Olaf Owain Glyndŵr*. lluniau gan Iestyn Hughes. Y Lolfa. £9.99 224t.






Wn i ddim pryd y gafaelodd llyfr ynof-i fel y gwnaeth y gyfrol hynod hon. Mae'n hynod, os nad yn unigryw, yn y ffaith ei bod yn cyfuno nodweddion nad ydyn-nhw'n aml yn dod at ei gilydd.

Yn y lle cyntaf, mae'n waith pwysig o ysgolheictod hanesyddol a llenyddol. Mae'n werth i'r darllennydd cyffredin gael cip ar y llu o nodiadau cyfeiriadol i weld hyd-a-lled a manylder y darllen astudgar sy'n gorwedd y tu ôl i'r stori y mae'r awdur yn ei hadrodd. Mae'r ystod o lawysgrifau a ffynonellau yn ogystal â cyhoeddiadau hen a newydd, y wybodaeth am ddaearyddiaeth a barddoniaeth a chelfyddyd weledol, yn anhygoel yng ngwir ystyr y gair.

Ond yn yr ail le, ac yn bwysicach i ddarllenwyr *Y Tincer*, dyma stori dditectif afaelgar a chwbl gyfareddol. Mae'r awdur yn dadansoddi'i dystiolaeth gydag archwaeth ond yn ddi-duedd, ac yn mynd ar drywydd y cliwiau yn benderfynol-glinigol.



Yn drydydd, dyma lyfr taith sy'n ein tywys drwy dirwedd hudolus siroedd Henffordd a Maesyfed (Maelienydd gynt) wrth dreiddio i graidd y dirgelwch, sef ble yn union y treuliodd Owain Glyndŵr ei ddyddiau olaf, y bu farw ac y'i claddwyd.

Ond mae yna elfen bellach i'r stori sy'n mynd â ni at hanfod y cwestiwn: beth sydd wedi gyrru Gruffydd Aled Williams yn ei ymchwil llafurfawr a pham y dylen ni, bobl yr 21fed ganrif, boeni am dynged tywysog canoloesol? Yr ateb yw mai gwladgarol a gwleidyddol yn y gwraidd yw neges y llyfr hwn. Mae Hanes yn bwrw cysgod hir. Cafodd ymdrech oleuedig Owain Glyndŵr i sefydlu gwladwriaeth Gymreig ddechrau'r 15fed ganrif ei chwalu'n ddidostur wedi cyfnod o lwyddiant arloesol, ond bu'n ysbrydoliaeth bwysig i ddeffroad cenedlaethol Cymru bron bum canrif yn ddiweddarach. Go brin y byddai gwreiddyn gwladwriaeth Cymru wedi'i blannu ddiwedd yr ugeinfed ganrif ac yn tyfu'n gynyddol yn ein dyddiau ni oni bai am weledigaeth ac athrylith gwleidyddol Owain. A dyfodol y Deyrnas Gyfunol yn y fantol, mae'r hanes yn gwbl berthnasol heddiw.

Saernïodd Gruffydd Aled Williams ei lyfr yn ofalus yn bedair adran, gan agor ei bwnc yn raddol-eglur i'r darllenydd: Y Cefndir i gychwyn; Henffordd wedyn a'r llefydd yna lle y gall fod Glyndŵr wedi treulio'i ddyddiau olaf; yr un fath wedyn am Gymru; ac i gloi astudiaeth o'r 'cerddi brud', gwaith y beirdd sy'n proffwydo'r dyfodol. Mae'r adran ola'n bwysig ac yn allwedd efallai i'r rheswm nad oes neb yn gwybod ble y claddwyd Glyndŵr. Y tebyg yw i'r sawl a'i claddodd gadw'r gyfrinach yn fwriadol. 'A dwedyd, a da ydyw,/A wnan' fod Owain yn fyw,' meddai un bardd. Bu Owain byw yng nghof a dychymyg y werin drwy'r canrifoedd i ysbrydoli'i genedl o'r newydd yn y cyfnod modern.

Gair cyn cloi am arddull yr awdur hwn. Mae'n lân, yn eglur, yn lluniaidd ac ar adegau'n delynegol, er enghraifft yn y disgrifiadau o fangreoedd yn swydd Henffordd. Mae ei ddisgrifiad dychmyglawn (tt 20-1) o dorcalon Owain yn ei hen ddyddiau yn tynnu'n ddirdynnol ar linynnau'r galon.

Da chi, peidiwch â bod heb ddarllen y campwaith amlweddog hwn. Cafodd ei argraffu'n gain a difefl. Ffotograffau hyfryd Iestyn Hughes yw'r hufen ar y gacen.

**Cynog Dafis**


**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

**James Memorials**
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

**Morlan**
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**FFAIR AMLDDIWYLLIANNOL**
(11.30-2.30, 17 Hydref). Dewch i wisgo sari, cael eich dwylo wedi'u paentio â henna neu ymuno mewn twmpath! Perfformiadau amrywiol hefyd. Mynediad: £3 (yn cynnwys powlenaid o gawl neu fwyd Indiaidd). Trefnir gan Morlan a Mind Aber i nodi Wythnos Un Byd. Elw at Mind Aber.

**DEG DROS DDEG: CYFRYNGAU CYMDEITHASOL – MELLTITH NEU FENDITH?**
(7.30, 21 Hydref). Noson i drafod y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi tyfu'n aruthrol ers agor Morlan.

**Manylion llawn ar wefan Morlan**:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr,
Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com
@CanolfanMorlan

**CIGYDD BOW STREET**
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-5.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

**GWASANAETH CYFIEITHU**
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

**GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS**
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

# Llun y mis

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street.
Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/



"Sybil Mary" a "Winifred" yn cyrraedd gorsaf drenau Capel Bangor, yn ystod Gŵyl Rheilffordd Stêm Cwmrheidol.

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

Harddwch
Siriol
Beauty
07962 861 822
www.facebook.com/siriolbeauty
Brynsiriol,
Bow Street, Ceredigion SY24 5AR

y tincer
ytincer@gmail.com

## DÔL-Y-BONT

### Geni wyres / gor-wyres

Llongyfarchiadau i Annette a Meirion Lewis, Cysgod y Gwynt, ar enedigaeth wyresfach ac i Mrs Mrs. Primrose Watkin, Penbont ar enedigaeth gor-wyres. Ganwyd Aila Rose i Leri ac Ian yn ddiweddar yn Llandre. Pob dymuniad da i'r teulu oll.

### Llwyddiant mewn sioeau

Llongyfarchiadau i Deulu Watkin, Henllys, ar eu llwyddiant mewn gwahanol sioeau yn ystod yr haf a chofion at Gerald a fu mor anffodus a chael damwain a dioddef dipyn o anafiadau yn ddiweddar. Gobeithio ei fod yn gwella erbyn hyn.

### Cydymdeimlad

Gyda thristwch mawr y clywsom y newyddion trist am farwolaeth Dyfrig Davies, Maes y Leri, fore Mawrth 29 Medi. Bu farw Dyfrig yn gwbl ddirybudd tra'n teithio yn ei gar yn Llandre. Cydymdeimlwn yn fawr gyda Gloria, ei briod, a'r plant Claire a Martin a'u teuluoedd.

### Cydymdeimlad

Anfonwn ein cofion at Maria Evans a'r teulu, Gwynfa, Alltwalis, a chydymdeimlwn â nhw ar eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw Arwyn, priod Maria, yn sydyn ddechrau Hydref. Mae Maria yn adnabyddus i ni i gyd gan ei bod wedi ei magu yn Bryneithin.



Diolch i Jackie Willmington am y llun o daith gerdded hamddenol gafwyd o Ddôl-y-bont ar hyd afon Leri ddiwedd mis Medi, heibio'r Animalarium ac Eglwys St Matthew ac yn ôl dros y bryn y tu cefn i fferm Pant-y-dwn ac ar hyd y lonydd, gan oedi i fwyta mwyar duon – efallai'r cyfle olaf cyn i'r diafol "boeri" arnynt (ansicrwydd oherwydd bod Gŵyl Mihangel ar 10 Hydref yn ôl yr hen galendr).

# Colofn Enwau Lleol

Gyda Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn parhau ar ei daith drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru wedi bod yn pwyso ar i enwau lleoedd gael eu cynnwys o fewn cwmpas y bil. Cred y Gymdeithas ei bod hi yr un mor bwysig gwarchod enwau lleoedd ag ydyw i warchod henebion a hen adeiladau, a hynny am eu bod yn rhan o'n treftadaeth, ac yn cynnig allwedd i'n gorffennol.

Cymerwch er enghraifft bwysigrwydd y *clawdd mynydd* neu'r *clawdd eithaf* yn yr hen gyfundrefn amaethyddol 'hafod a hendre'. Clawdd oedd hwn yn gwahanu'r tiroedd isel amgaeedig a gâi eu pori yn ystod y gaeaf, a'r mynydd agored y byddid yn gyrru'r anifeiliaid iddo dros fisoedd yr haf. Mae pob arwydd o'r cloddiau hyn wedi diflannu i bob pwrpas erbyn heddiw, ond gall enwau lleoedd fod yn gymorth i'w holrhain mewn rhai mannau.

Mae sawl enw lle yn cadw cof am y clawdd yn ardal y Tincer:

Saif tŷ annedd *Gwar-ffin* ar gwr y goedwig uwchlaw pentref Penrhiwnewydd, ac ar un adeg roedd lle o'r enw *Pant-y-ffin* heb fod ymhell o Lannerchclwydau ym Mont-goch. Mae'n deg dyfalu mai'r terfyn rhwng llawr gwlad a'r mynydd agored oedd y *ffin* dan sylw yn yr enwau.

Ychydig i'r gogledd-ddwyrain o bentref Salem Coedgruffudd mae fferm *Clawddmelyn*. Dyma enw sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at glawdd y mynydd, gyda'r ansoddair *melyn* o bosibl yn disgrifio lliw'r pridd neu'r tyfiant. Tybed serch hynny faint o ddarllenwyr *Y Tincer* sy'n ymwybodol bod dau *Glawddmelyn* yn wreiddiol, sef yr un ar y safle presennol a *Chlawddmelyn Bach* islaw ar lan yr afon?

Enw'r bwlch yn y mynyddoedd uwchlaw pentref Bont-goch yw *Bwlch yr Adwy*. Gellir casglu mai *adwy* neu *agoriad* yng nghlawdd y mynydd sydd dan sylw yma.

Tybed hefyd ai *llidiart* y mynydd oedd dan sylw yn enw'r lluest *Tanllidiart* rhwng Penrhiwnewydd a Chwmsymlog, lluest nad oes olion ohoni'n weddill bellach.

Does dim modd gorbwysleisio'r angen i warchod a diogelu ein henwau lleoedd felly, er mwyn eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

**Angharad Fychan**

**Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru**
**www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org**







Cysyllter â'r trysorydd
os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# Taith gerdded y mis

## Ffwrnais / Cwm Einion

**Man dechrau**: Maes parcio – troi i'r chwith cyn y bont yn Ffwrnais
**Map**: OL23 Explorer GR 685953.
**Pellter**: Rhwng 2.5 a 5.5milltir yn ôl y dewis.




O'r maes parcio croesi'r ffordd fawr a mynd lan ffordd Cwm Einion nes cyrraedd feidr sydd yn troi 'nôl ar y dde. Dilyn y feidr a throi i'r chwith pan welwch fynegbost a fydd yn eich arwain drwy'r goedwig heibio set (cofeb William Condry) i gwrdd â feidr arall a chadw i'r chwith lawr heibio'r tai i gwrdd â ffordd Cwm Einion eto. Lawr y ffordd a throi i'r dde ar hyd llwybr lawr dros afon Einion ac ymlaen i gwrdd â ffordd arall, i'r chwith a throi i'r dde ar hyd llwybr sydd â golygfa fendigedig dros y Ddyfi. Gallwch ddilyn y llwybr nes cyrraedd Melindwr a throi 'nôl ac i'r chwith drwy iet ac ar hyd y wal gerrig a nôl i'r man dechrau, neu gallwch fynd lawr y llwybr agosach. Fel y sylwch ar y map gellir byrhau'r daith yn ôl eich dewis.

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Pennau

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Owain Glyndŵr

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod Owain Glyndŵr ar 16eg o Fedi, aethom ni i Fachynlleth i weld Sioe ryngweithiol am ei hanes. Dyma'r tro cyntaf i'r plant weld y Senedd-dy ac fe gawson nhw hwyl wrth ddysgu ffeithiau amdano.



### Macmillan

Cynhaliwyd bore coffi yn neuadd yr ysgol ar fore Dydd Gwener 25ain o Fedi i godi arian ar gyfer elusen Macmillan. Roedd y staff a phlant y clwb coginio wedi creu cacennau ar gyfer y bore ac roedd yr ysgol ar agor i'r gymuned i fwynhau coffi, te a chacennau yn ein cwmni. Daeth llawer o bobl i gefnogi'r digwyddiad a chododd yr ysgol £128.30! Hoffwn i ddiolch i bawb wnaeth ddod i gefnogi.

### Pêl-droed

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed yr ysgol am gystadlu ym mhencampwriaeth 5-bob ochr yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Plas-crug. Roedd pob un wedi cydweithio'n dda ac wedi mwynhau chwarae a chynrychioli'r ysgol. Yn anffodus nid oeddem yn llwyddiannus i symud ymlaen y tro hwn. Diolch yn fawr i Miss Rhian am fynd â'r tîm.

### Hola

Aethon ni i weld sioe newydd sbon gan Gwmni Theatr Arad Goch yn neuadd y Borth yn ystod y mis. Roedd hi'n hyfryd i gael Ysgol Tal-y-bont ac Ysgol Llangynfelyn i ymuno gyda ni i wylio'r sioe. Enw'r sioe oedd Hola ac roedd yn gyfle gwych i'r disgyblion brofi antur, ofnau a gobeithion y criw a hwyliodd ar long y Mimosa o Lerpwl i Batagonia 150 mlynedd yn ôl.






Siop
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân
01970 820149
07980 687475

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

y tincer

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
Perchnogion:
Gwyn a Janet Evans
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

# Ysgol Pen-llwyn

### Sioe Capel Bangor

Braf unwaith eto oedd cael stondin arbennig ar faes y sioe eleni. Buodd y gymdeithas Rhieni yn brysur iawn yn paratoi y stondin a oedd yn llawn hwyl a sbri! Yn ystod diwedd y tymor buodd y plant ysgol yn brysur yn paratoi gwaith celf ar gyfer y Sioe ac roedd hyn yn weladwy o fewn y babell Celf a Chrefft. Da iawn wir i bawb enillodd wobr!

### Ynys-hir

Y Trochiad Mawr yw thema dosbarth 2 a 3 y tymor yma. Bu'r plant yn brysur iawn yn dysgu am wahanol gynefinoedd a'r anifeiliaid a thrychfilod sy'n byw yn y cynefinoedd hynny. Fel rhan o'r dysgu penderfynwyd mynd a hwy i'r RSPB yn Ynys-hir.

Ein gweithgaredd cyntaf oedd datblygu ein sgiliau darllen map. Cafwyd sbort wrth i'r plant ddefnyddio y mapiau i ddarganfod cliwiau arbennig. Wedi hynny cafwyd cyfle i drochi o fewn y pyllau dŵr. Casglwyd nifer o drychfilod a physgod a dysgodd plant lawer iawn amdanynt wrth archwilio yr anifeiliad a defnyddio llyfrau a phosteri i ddod o hyd i'w henwau. Wedi cinio cafwyd cyfle i archwilio cynefin arall, y morfa heli. Roedd yn drip ysgol llwyddiannus iawn gyda pawb wedi mwynhau a dysgu llawer! Diolch yn fawr i Mrs Morgan am drefnu'r trip!

### Croeso i aelodau newydd

Croeso mawr i Lillie Jones, Gwenno Hughes, David Griffiths, Issy Cooper a Phoebe Wright i ddosbarth 1 y tymor yma. Mae yna groeso mawr i Austin Roebuck a Kia Wright i ddosbarth 2. Braf gweld fod niferoedd yr ysgol dros 50 erbyn heddiw gyda 51 plentyn o fewn yr ysgol.

### Cyngor Ysgol

Mae'r cyngor ysgol eisioes wedi cael nifer o gyfarfodydd yn ystod y Tymor ac wedi bod yn brysur yn casglu syniadau newydd ar gyfer codi arian i'r ysgol ac elusenau amrywiol. Gwybodaeth cyffrous i ddod yn fuan!









# Bois yr Hewl yn y 50au



Diolch i Dai Mason am y llun yma o Fois yr Hewl Plwyf Trefeurig; o'r chwith i'r dde – Dic 'Annie Mary' Evans; Lewis Morgan, Cartrefle; Jack Jones, Bow Street; Alun Evans, Banc y Darren; Jim y Rowl, Capel Bangor; Elwyn Mason, Cwmisaf; Dei 'Syfydrin' Evans; John 'Darren' Griffiths.

WALKER'S DOG WALKERS
CERDDED CŴN A GWARCHOD ANIFEILIAD ANWES
Bryn Walker, Llety'r Ddwylan
Pen-bont Rhydybeddau
Aberystwyth SY23 3EZ
01970 828066 07971942877
llletyr@btinternet.com

y tincer
COFIWCH GYSYLLTU
ytincer@gmail.com

# Ysgol Penrhyn-coch

### Taith Tractorau

Cynhaliwyd y daith tractorau ar Fedi 20fed ac eleni eto cafwyd diwrnod arbennig ac arddangosfa hyfryd o wahanol dractorau. Cafwyd roliau bacwn blasus,stondin gacennau a gwobrau raffl gwerth chweil! Braf gweld iard yr ysgol yn orlawn o deuluoedd,ffrindiau'r ysgol a thrigolion o'r gymuned. Codwyd tua £900 ac mae'r diolch enfawr i Mrs Lynwen Jenkins, Garej Tŷ Mawr am drefnu'r digwyddiad. Mae Lynwen erbyn hyn yn hen gyfarwydd gyda'r hyn sydd eisiau i drefnu'r daith a diolchwn iddi am ei gwaith called.

### Clwb yr Urdd

Mae'r clwb eisioes wedi ail ddechrau ac mae'r clwb yn agored I bob disgybl sydd yn aelodau o'r Mudiad.Rydym wedi gwneud sesiwn ddrama, peintio darluniau o goed yr Hydref, chwarae bingo a gwneud llusernau allan o ddail yr Hydref. Tipyn o hwyl.

### Cyngerdd Robat Arwyn

Mwynheuodd y plant hynny a fu'n diddanu gyda Robat Arwyn yn Neuadd y Penrhyn.Roedd yn gyfle arbennig I fwynhau a gwrando ar un o gyfansoddwyr enwocaf Cymru.Braf clywed mai'r tro cyntaf iddo glywed côr o blant yn canu Bai ar Gam.

### Cysgu dros nos ym Mhentre Bach!

Mae dosbarth 2 –plant blwyddyn 1 a 2 wedi bod am ddau diwrnod o wyliau ym mhentref hudol Sali Mali ym Mhentre bach! Cafwyd 2 ddiwrnod braf o heulwen a chyfle I fwynhau cartrefi enwog fel SaliMali, Pili Pala, Coblyn, Bili Bom Bom a llawer mwy. Cysgodd y merched yng ngwesty Pili Pala a'r bechgyn yng nghartref Nicw Nacw! Fe fuon ni am dro i weld hen felin sydd wedi ei hadnewyddu yn ddiweddar. Cafwyd helfa drysor esgidiau pobl y pentre, parti yn y caffi ac ymweliad arbennig gan Coblyn a Sali Mali! Cysgodd y plant a'r staff yn hapus braf ac fe gaethom lot o hwyl!!

### Bywydeg y Môr

Fel rhan o waith y tymor, cafwyd ymweliad gan wyddonwyr o'r Brifysgol yn Aberystwyth. Daethant atom i sôn am anifeiliad y môr ynghyd a'r hyn a ellid eu gweld mewn pyllau ar lan y môr. Cafwyd llawer o wybodaeth ganddynt a chyfle i weld rhai enghreifftiau o'r anifeiliaid. Gobeithio y bydd y disgyblion yn awr yn mwynhau cerdded ar y traeth ac yn sylwi ar anifeiliaid amrywiol o fewn pyllau wrth i'r llanw fynd allan.

### Stondin gacennau MacMillan

Trefnwyd stondin gacennau gan y cyngor ysgol ac fe godwyd tua £140. Diolch I'r plant a rhieni am goginio ac I'r rhai a brynodd.

### Gwersi Beicio Blwyddyn 6

Mae'r plant eisioes yn gwybod pa mor bwysig yw diogelwch y ffordd wrth feicio ac yn ystod yr wythnosau diwethaf maent wedi adolygu eu gwybodaeth a'u sgiliau gyda Gwen Evans, Swyddog Diogelwch y Ffyrdd, Cyngor Ceredigion. Mae'r plant wedi mwynhau yn fawr.

### Rhedwraig o fri

Diolch i Eleri Jones a aeth ati i redeg yn 10K Caerdydd yn ddiweddar. Bu'n ymarfer yn galed ac yn codi arian tuag at goffrau yr ysgol. Diolch yn fawr iddi am ei gwaith caled ac am y siec o £169 a gyflwynodd i'r ysgol.

Gweler hefyd t. 10 – Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn









# Ysgol Rhydypennau



Rhai o blant blwyddyn 1 yn y parc yn Llandre.



Y Cyngor Ysgol (Rhes ôl) Melchi, Joel ac Harri (Rhes flaen) Alys, Gerwyn, Gwenno, Elin ac Ella



Y Pwyllgor Eco-Erin K, Elen, Alaw, Osian, Erin F, Luke ac yn y blaen; John ac Iestyn.

### Adran yr Urdd

Mae Adran yr Urdd wedi ail ddechrau bellach. Bu plant blynyddoedd 4, 5 a 6 yn mwynhau sesiwn gan Carys Price Jones o'r Urdd. Mi fydd y gweithgareddau difyr yn parhau yn ystod gweddill y flwyddyn.

### Cynaeafu cynnyrch yr ardd

Rydyn ni wedi bod yn brysur iawn yn ystod mis Medi. Rydyn ni wedi bod yn cynaeafu'r llysiau sy'n tyfu yn ein gardd ni yn yr ysgol. Mae llawer o lysiau gwahanol yn tyfu yn yr ardd, pethau fel moron, tatws, ffa dringo a phanas. Yn y tŷ gwydr mae tomatos blasus, ciwcymbyrs hir a phupur gwyrdd. Mae afalau yn tyfu yn y berllan ac eirin hefyd.

Yn ystod y mis rydyn ni wedi casglu'r llysiau sydd wedi aeddfedu. Roedd llawer o bethau yn barod felly penderfynon ni wneud siop lysiau. Rhoddon ni fwrdd y tu allan i ddrws yr ysgol a rhoddon ni boster yn y ffenest. Am hanner awr wedi tri daeth llawer o rieni i brynu'r llysiau. Daeth llawer o bobl i brynu'r llysiau. Cyfanswm yr arian oedd £34.50.

Diolch yn fawr iawn i Mr Tudor Gethin am ein helpu ni yn yr ardd bob blwyddyn.

### Owain Glyndŵr

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod Owain Glyndŵr (16eg o Fedi) fe aeth 83 o blant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 i adeilad hanesyddol bwysig Senedd-dy Owain Glyndŵr ym Machynlleth. Yno cyflwynwyd sioe ryngweithiol am hanes Owain Glyndŵr gan gwmni 'Mewn Cymeriad'. Yn ystod awr o berfformiad, fe ddysgodd y plant am ormes y Cymry dan Arglwyddi'r Mers a Brenin Lloegr nes i un Cymro dewr gael llond bol a phenderfynu ffurfio byddin gref i frwydro'n ffyrnig yn erbyn ei elyn, gyda'r bwriad i greu Cymru yn wlad annibynnol.

### Mynd am dro

Fel rhan o waith Daearyddiaeth y tymor, cerddodd plant blwyddyn 1 draw i barc Llandre er mwyn cwblhau gwaith maes ar 'Ein Cymuned'. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y plant gyfle i wella eu sgiliau mapio tra'n mwynhau tywydd annisgwyl haf bach Mihangel.

### Gwasanaethau

Mae Y Parchedigion Richard Lewis, Andrew Lenny a Peter Jones bellach wedi cyfrannu i wasanaethau boreol yr ysgol yn ystod y tymor hwn. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn iddynt am eu hamser a'u cyfraniadau gwerthfawr.

### Clwb Cant

Dyma ganlyniad Fis Hydref; 1af – £25 Ruth Edwards. Arequipa, Y Borth, 2il – £15 Emyr Morgan, Llys Alaw, Bow Street, 3ydd-£10 Siôn Ewart, Cae'r Rhos. Bow Street.




Dyma blant blwyddyn 2 a Mrs Simpson o flaen ein stondin Lysiau.

# Ysgol Penweddig



Swyddogion 2015 -2016 – Llongyfarchiadau mawr i Swyddogion yr ysgol am 2015-2016: Prif Ferch: Elliw Dafydd. Prif fachgen: Daniel Thomas. Dirprwy Brif Ferch: Medi Evans. Dirprwy Brif Fachgen: Jake Albrighton.
Swyddogion: Alys Cowdy, Angharad Davies, Ioan Lord a Bleddyn Thomas.

# Tasg y Tincer


Wrth ysgrifennu hwn, rwy'n edrych drwy'r ffenest ar awyr las heb yr un cwmwl, er ei bod hi'n ddechrau mis Hydref! Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r tywydd braf gawson ni. Rwy'n siŵr eich bod wedi clywed pobl yn dweud ein bod wedi cael 'haf bach Mihangel' eleni. Am ddywediad hyfryd, yndê? Diolch i'r tri fentrodd liwio llun mis Medi, sef Nel Davies, Caernarfon, Iestyn Roberts, Penrhyn-coch a Ffion o Ddolgellau. A'm llygaid ar gau, dyma fi'n pwyntio fy mys at un o'r lluniau, a phigo llun ... Iestyn! Daliwch ati, Nel a Ffion, a diolch i chi am eich gwaith lliwgar.

A ydych chi'n cael gwasanaeth diolchgarwch yn eich ysgol neu yn eich pentref y mis hwn? Dyma gyfle i ni ddweud diolch am y cynhaeaf ac am bopeth sydd gan bob un ohonon ni. Ond nid yw pob gwlad yn dathlu ei gŵyl ddiolchgarwch adeg yma o'r flwyddyn. Mae pobl Seland Newydd yn dathlu ym mis Chwefror, pobl yn India yn dathlu yn mis Ionawr ac mae pobl Nigeria yn cynnal eu gŵyl bysgod ym mis Chwefror. Shavout yw enw gŵyl ddiolchgarwch yr Iddewon, sy'n cael ei chynnal ym Mai neu Fehefin, ac mae'r Iddewon yn dathlu trwy fwyta, canu, dawnsio ac addurno'u tai. Ac mae'r Americanwyr yn cynnal eu gŵyl thanksgiving ym mis Tachwedd.



Iestyn Roberts

Y mis hwn, beth am liwio llun y ffrindiau sy'n dweud diolch am eu cynhaeaf o bwmpenni – jyst mewn pryd ar gyfer Calan Gaeaf! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Tachwedd: Ta tan toc, a mwynhewch gwylio'r rygbi!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**


M THOMAS
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773 442 260
Bronllys, Capel Bangor
Aberystwyth



ISSN 0963-925X

Rhif 382 | HYDREF 2015